**AWDURDOD TÂN GOGLEDD CYMRU**

**NORTH WALES FIRE AUTHORITY**

Bydd **Cyfarfod Blynyddol AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU** yn cael ei gynnal **DDYDD LLUN 21 Gorffennaf 2025 yn rhithiol trwy Zoom.** Bydd y cyfarfod yn dechrau am 9.30am.

Yr eiddoch yn gywir

Gareth Owens
Clerc

**AGENDA**

1. **Penodi Cadeirydd 2025/26**

2. **Ymddiheuriadau**

3. **Datganiadau o Fuddiant**

4. **Penodi Dirprwy Gadeirydd 2025/26**

5. **Penodi Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio 2025/26**

6. **Penodi Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio 2025/26**

7. **Hysbysiad o Faterion Brys**

   Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B (4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

8. **Aelodaeth o'r Awdurdod Tân ac Achub gan ymgorffori Penodiadau i Bwyllgorau a Chyrff Allanol**

9. **Dyddiadau Cyfarfodydd 2025/26**

10. **Cynllun Cydnabyddiaeth Ariannol Aelodau**

11. **Materion Brys**

    Ystyried unrhyw eitemau y penderfynodd y Cadeirydd eu bod yn eitemau brys (yn unol ag Adran 100B (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972) ac y datganwyd eu pwysigrwydd o dan eitem 4 uchod.

12. <u>**RHAN II**</u>

    **Dim eitemau i'w trafod**

*This document is available in English* **Eitem Agenda 8**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Cyfarfod Blynyddol<br>Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **21 Gorffennaf 2025** |
| Swyddog Arweiniol | **Gareth Owens, Clerc** |
| Swyddog Cyswllt | **Gareth Owens, Clerc (01745 535286)** |
| Pwnc | **Aelodaeth o'r Awdurdod Tân ac Achub gan ymgorffori Penodiadau i Bwyllgorau a Chyrff Allanol** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw gwahodd yr Aelodau i nodi aelodaeth Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) a'i bwyllgorau, sydd wedi newid ers y llynedd.  Pwrpas arall yw nodi'r penodiadau allanol megis Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) a'r Gymdeithas Llywodraeth Leol.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Bu pum newid i aelodaeth yr Awdurdod ers y llynedd ac mae'r adroddiad hwn yn ddiweddariad ar yr aelodaeth bresennol a'r dyraniad i bwyllgorau.

3 Mae un o'r newidiadau aelodaeth wedi arwain at swydd wag ar y Pwyllgor Safonau, ac mae angen penodi cynghorydd i'r pwyllgor hwnnw.

## ARGYMHELLION

4 Argymhellir bod yr Aelodau'n:

- **i) Cadarnhau aelodaeth yr Awdurdod, penodiadau i bwyllgorau a phenodiadau allanol; ac yn**
- **ii) Penodi'r Cynghorydd Hodge i'r Pwyllgor Safonau.**

## CEFNDIR

5 Mae gan yr Awdurdod gyfres o bwyllgorau y gwneir penodiadau iddynt yn y cyfarfod cyntaf neu'r cyfarfod blynyddol. Mae'r rhain i'w gweld isod.

6 Mae'r Awdurdod wedi penderfynu peidio â chael cydbwysedd gwleidyddol o ran aelodaeth ei Bwyllgorau o dan reoliad 20 o Reoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau a Grwpiau Gwleidyddol) 1990. Gwneir penodiadau i ddau brif bwyllgor yr Awdurdod drwy ddulliau gwahanol yn dibynnu ar ba awdurdod cyfansoddol a enwebodd yr aelod. Mae aelodau'r Pwyllgor Safonau yn gwirfoddoli am y swydd.

7 Mae'r Awdurdod hefyd yn cael ei gynrychioli ar y cyrff canlynol:

| | |
|---|---|
| Grŵp Cyswllt Gweinidogol Tân ac Achub y Cadeiryddion a'r Penaethiaid | Y Cadeirydd |
| Cyngor Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) | Y Cadeirydd |
| Pwyllgor Cydlynu CLlLC | Un cynrychiolydd ar ran y tri Awdurdod Tân ac Achub (ATA) |
| Panel Gwasanaethau Tân CLlLC | Y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd |
| Y Gymdeithas Llywodraeth Leol | Y Cadeirydd |
| Fforwm Gwasanaethau Tân y Gymdeithas Llywodraeth Leol | Un cynrychiolydd ar ran y tri ATA |
| Fforwm Partneriaeth Gymdeithasol | Y Cadeirydd neu'r Dirprwy Gadeirydd |

**GWYBODAETH**

8 Ers mis Gorffennaf 2024 mae aelodaeth yr Awdurdod wedi newid. Bu rhai newidiadau oherwydd newidiadau mewn cydbwysedd gwleidyddol o fewn y cyngor cyfansoddol. Yn anffodus, wrth gwrs, yn sgil marwolaeth y diweddar Gynghorydd Triggs, mae un swydd wag ar yr Awdurdod ar hyn o bryd.

9 Mae'r newidiadau fel a ganlyn:

| Cynghorydd Blaenorol | Cynghorydd Presennol | Cyngor |
|---|---|---|
| Chrissy Gee | Antony Wren | Sir y Fflint |
| Michelle Blakely-Walker | Ann Davies | Sir Ddinbych |
| Adele Davies-Cooke | Ian Hodge | Sir y Fflint |
| Marion Bateman | Chrissy Gee | Sir y Fflint |
| Gareth R Jones | Tom Montgomery | Conwy |
| Rob Triggs | Gwag | Gwynedd |

10 Gwneir penodiadau i'r Pwyllgorau canlynol. Pan fydd yr aelodaeth yn newid, bydd yr aelod newydd yn cael ei benodi i sedd y person y maent yn eu disodli, fel arfer. Fodd bynnag, er bod y Cynghorydd Hodge wedi disodli'r Cynghorydd Bateman, mae wedi gwirfoddoli i gael ei benodi i'r Pwyllgor Safonau.

Mae aelodaeth pob pwyllgor fel a ganlyn:

**Panel Gweithredol (13 aelod) -**

| Cynghorydd | | Cyngor |
|---|---|---|
| Carol | Beard | Conwy |
| Paul | Cunningham | Sir y Fflint |
| Alan | Hughes | Sir Ddinbych |
| Chris | Hughes | Conwy |
| John Ifan | Jones | Ynys Môn |
| Dylan | Rees | Ynys Môn |
| Gareth A | Roberts | Gwynedd |
| Rondo | Roberts | Wrecsam |
| Paul | Rogers | Wrecsam |
| Gareth | Sandilands | Sir Ddinbych |
| Dale | Selvester | Sir y Fflint |
| Antony | Wren | Sir y Fflint |
| Gwag | | Gwynedd |

**Pwyllgor Archwilio (15 aelod)**

| Cynghorydd | | Cyngor |
|---|---|---|
| Bryan | Apsley | Wrecsam |
| Chrissy | Gee | Sir y Fflint |
| Tina | Claydon | Sir y Fflint |
| Ann | Davies | Sir Ddinbych |
| Ian | Hodge | Sir y Fflint |
| Sharon | Doleman | Conwy |
| Jeff | Evans | Ynys Môn |
| John Brynmor | Hughes | Gwynedd |
| Tom | Montgomery | Conwy |
| Marc | Jones | Wrecsam |
| Gwynfor | Owen | Gwynedd |
| Beverley | Parry-Jones | Wrecsam |
| Arwyn Herald | Roberts | Gwynedd |
| Austin | Roberts | Conwy |
| Mark | Young | Sir Ddinbych |

**Pwyllgor Safonau (dau aelod)**

Gwag (y Cynghorydd Marion Bateman (Sir y Fflint), cyn hyn)
Y Cynghorydd John Brynmor Hughes (Gwynedd)
a 4 aelod wedi eu cyd-ethol.

11 Mae cylch gwaith y pwyllgorau uchod wedi'i gynnwys yn y Cyfansoddiad.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Ystyrir nad yw'n berthnasol |
| Cyllideb | Bydd costau presenoldeb yn cael eu talu o'r gyllideb bresennol a ddyrannwyd |
| Cyfreithiol | Cynhelir cyfarfodydd yn unol â'r cylch gwaith y cytunwyd arno.<br>Disgwylir i aelodau gadw at eu cod ymddygiad bob amser |
| Staffio | Ystyrir nad yw'n berthnasol |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/<br>Y Gymraeg | Ystyrir nad yw'n berthnasol |
| Risgiau | Ystyrir nad yw'n berthnasol |

*This document is available in English* **Eitem Agenda 9**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru Cyfarfod Blynyddol** |
| Dyddiad | **21 Gorffennaf 2025** |
| Swyddog Arweiniol | **Clerc Monitro – Gareth Owens** |
| Swyddog Cyswllt | **Clerc Monitro - Gareth Owens** |
| Pwnc | **Dyddiadau Cyfarfodydd 25/26** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Rhoi gwybod i'r Aelodau am ddyddiadau cyfarfodydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod), y Panel Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio ar gyfer 2025 - 26.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Mae dyddiadau cyfarfodydd yr Awdurdod llawn, y Panel Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio i'w gweld ym mharagraffau 7-11 yr adroddiad hwn. Gofynnwn i bob cyngor gadw dyddiadau cyfarfodydd llawn yr Awdurdod yn glir yn eu hamserlen cyfarfodydd.

**ARGYMHELLIAD**

3 Argymhellir bod yr Aelodau'n:

**i) cytuno ar ddyddiadau cyfarfodydd yr Awdurdod llawn, y Panel Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio.**

**GWYBODAETH**

**Awdurdod Tân ac Achub**

4 Mae Rheol Sefydlog 4(2) Rheolau Sefydlog yr Awdurdod yn datgan:

"Cynhelir cyfarfodydd yr Awdurdod o leiaf bedair gwaith y flwyddyn a chynhelir y cyfarfod blynyddol fis Gorffennaf fan bellaf. Bydd y cyfarfodydd hyn yn cael eu cynnal yn unol â'r amserlen o gyfarfodydd a gyhoeddir gan yr Awdurdod oni bai fod y Cadeirydd, mewn ymgynghoriad â'r Clerc a'r Prif Swyddog Tân, yn pennu'n wahanol."

5 Rydym ni'n cytuno â'r cynghorau cyfansoddol na ddylent drefnu unrhyw gyfarfodydd sy'n gwrthdaro â chyfarfodydd yr Awdurdod llawn. Fodd bynnag, nid yw'n bosibl osgoi gwrthdaro gyda'r Pwyllgor Archwilio a'r Panel Gweithredol. Trefnir dyddiadau'r cyfarfodydd Pwyllgor Safonau (ddwywaith y flwyddyn fel arfer) gydag aelodau'r pwyllgor.

6 Mae dyddiadau cyfarfodydd ATAGC wedi'u trefnu fel a ganlyn:

Dydd Llun 21 Gorffennaf 2025
Dydd Llun 20 Hydref 2025
Dydd Llun 19 Ionawr 2026
Dydd Llun 20 Ebrill 2026
Dydd Llun 20 Gorffennaf 2026
Dydd Llun 19 Hydref 2026

**Cyfarfodydd y Panel Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio**

7 Bydd y Pwyllgor Archwilio yn cael ei gynnal am 09:30 a'r Panel Gweithredol am 14:00 ar yr un diwrnod, ar y dyddiadau isod:

Dydd Llun 15 Medi 2025
Dydd Llun 15 Rhagfyr 2025
Dydd Llun 16 Mawrth 2026
Dydd Llun 15 Mehefin 2026
Dydd Llun 21 Medi 2026

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Ystyrir nad yw'n berthnasol |
| Cyllideb | Ystyrir nad yw'n berthnasol |
| Cyfreithiol | Cynhelir cyfarfodydd yn unol â Rheolau Sefydlog a chylch gwaith perthnasol ATAGC.<br>Disgwylir i aelodau gadw at eu cod ymddygiad bob amser |
| Staffio | Ystyrir nad yw'n berthnasol |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/<br>Y Gymraeg | Mae holl gyfarfodydd yr Awdurdod Tân ac Achub yn cydymffurfio â chydraddoldeb |
| Risgiau | Ystyrir nad yw'n berthnasol |

*This document is available in English* **Eitem Agenda 10**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Cyfarfod Blynyddol<br>Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **21 Gorffennaf 2025** |
| Swyddog Arweiniol | **Gareth Owens, Clerc; a Dafydd Edwards, Trysorydd** |
| Swyddog Cyswllt | **Gareth Owens, Clerc (01745 535286)** |
| Pwnc | **Cynllun Cydnabyddiaeth Ariannol yr Aelodau** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Rhoi gwybod i'r Aelodau am gyfraddau presennol y gydnabyddiaeth ariannol i aelodau, a chymeradwyo'n ffurfiol y rhestr o daliadau a wnaed yn ystod blwyddyn ariannol 2024/25.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Mae adroddiad blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (IRPW) yn nodi newidiadau i gydnabyddiaeth ariannol aelodau ac mae'r adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth am y newidiadau hynny sy'n effeithio ar aelodau Awdurdodau Tân ac Achub (ATA).

## ARGYMHELLION

3 Gofynnir i'r Aelodau:

**i) Nodi penderfyniadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (IRPW) mewn perthynas â lwfansau a chydnabyddiaeth ariannol yr aelodau o 1 Ebrill 2025;**

**ii) Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Clerc ddiweddaru rhestr cydnabyddiaeth ariannol yr aelodau yng nghyfansoddiad yr Awdurdod a gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i restr 2025/26 o bryd i'w gilydd yn ystod blwyddyn y cynghorau, er mwyn adlewyrchu unrhyw newidiadau yn aelodaeth Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod), neu o ganlyniad i unrhyw adroddiadau atodol a gyhoeddir gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol; a**

**iii) Chymeradwyo'r rhestr o daliadau a wnaed yn ystod 2024/25 fel sy'n ofynnol gan y Panel**

## ARSYLWADAU GAN Y PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO

4 Nid yw'r adroddiad hwn wedi cael ei ystyried gan yr Aelodau o'r blaen.

## CEFNDIR

5 Estynnwyd cylch gwaith y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol drwy Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011. O dan y pwerau a ddarparwyd gan y Mesur, mae'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol wedi cynhyrchu set newydd o Reoliadau a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2012. Mae'r Rheoliadau'n berthnasol i daliadau a wneir i aelodau ac aelodau cyfetholedig awdurdodau lleol, awdurdodau'r parciau cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub Cymru.

## GWYBODAETH

6 Mae'r Panel yn defnyddio enillion cyfartalog ledled Cymru fel sail i'w gyfrifiadau mewn perthynas â chynghorwyr etholedig ar brif gynghorau

"Mae'r Panel wedi penderfynu, ar gyfer y flwyddyn ariannol rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026, ei bod yn briodol cadw'r cysylltiad rhwng cyflog sylfaenol cynghorwyr a chyflogau cyfartalog eu hetholwyr. Bydd y cyflog sylfaenol yn gyson â thair rhan o bump o ASHE (Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion) 2022 i Gymru gyfan ar gyfer y cyfnod rhwng 2022 a 2023, sef y ffigur diweddaraf sydd ar gael ar adeg drafftio'r adroddiad."

7 Yna, mae'r Panel yn cysylltu'r taliad ar gyfer aelodau'r ATA â'r taliad i'r prif gynghorwyr

"Yn unol â phenderfyniad y Panel i gynyddu cyflog sylfaenol aelodau etholedig prif gynghorau, bydd lefel cydnabyddiaeth aelodau cyffredin yn APCau a ATAau hefyd yn cynyddu yn unol ag ASHE.

Bydd cydnabyddiaeth ariannol Cadeiryddion yn parhau'n gysylltiedig â chyflog uwch-aelod Band 3 prif gyngor. Felly, bydd eu helfen rôl felly yn cynyddu'n unol â hynny. Bydd cysylltiad Dirprwy gadeiryddion, cadeiryddion pwyllgorau ac uwch swyddi eraill a delir â Band 5 yn parhau. ..."

8 Ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub mae penderfyniadau'r Panel fel a ganlyn:

| | Cyflog 2024/25 o 1 Ebrill 2024 | Cyflog 2025/26 o 1 Ebrill | Cynnydd |
|---|---|---|---|
| Cyflog sylfaenol ar gyfer aelod cyffredin ATA | **£2,632** | **£2,788** | **5.93%** |
| Cyflog uwch ar gyfer Cadeirydd ATA | **£11,965** | **£12,674** | **5.93%** |
| Uwch gyflog i Ddirprwy Gadeirydd ATA a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio* | **£6,372** | **£6,743** | **5.82%** |

9 Yn ychwanegol at yr uchod:

- mae'r Panel wedi penderfynu cynnwys darpariaeth i Awdurdodau Tân ac Achub wneud cais am uwch gyflogau penodol neu ychwanegol nad ydynt yn dod o fewn y fframwaith presennol ar gyfer cydnabyddiaeth ariannol;
- ni chaiff aelodau dderbyn mwy nag un uwch gyflog ATA;
- mae uwch gyflog ATA yn cynnwys cyflog sylfaenol ATA a rhaid iddo adlewyrchu cyfrifoldeb sylweddol a pharhaus; ac
- ni all aelodau prif gyngor sy'n derbyn uwch gyflog band 1 neu fand 2 (swyddi â thâl ar y Cabinet/Gweithrediaeth) dderbyn cyflog gan unrhyw ATA y maent wedi eu henwebu iddo. Lle bo'r sefyllfa hon yn berthnasol, cyfrifoldeb yr aelod unigol yw cydymffurfio.

10 Cadeirydd yr Awdurdod yw Cadeirydd y Panel Gweithredol hefyd, a dim ond un cyflog y gall ei hawlio.

**Aelodau Annibynnol**

11 Mae'r ffi sy'n cael ei thalu i aelodau annibynnol y Pwyllgor Safonau wedi aros yr un fath eto. Cafodd y Panel sylwadau i'r perwyl nad oedd y gyfradd wedi cynyddu ers 5 mlynedd ac felly y dylid ei chynyddu. Fodd bynnag, nododd y Panel

"Nid yw'r Panel wedi argymell unrhyw newid [yn lefel y taliad], gan nodi y dylid adolygu hyn yn unol ag unrhyw newidiadau mewn cyfraddau a nodir gan Uned Cyrff Cyhoeddus Llywodraeth Cymru. Caiff unrhyw newidiadau i lefelau cydnabyddiaeth ariannol eu hystyried gan CDFfC."

12 Mae'r ffi ddyddiol yn cael ei chapio ar uchafswm o bedwar diwrnod llawn y flwyddyn ar y cyfraddau canlynol:

| | **Cyfradd ddyddiol 2024/25 o 1 Ebrill 2024** | **Cyfradd ddyddiol 2025/26 o 1 Ebrill 2025** |
|---|---|---|
| Cadeirydd y Pwyllgor Safonau | **Ffi ddyddiol o £268 (£134 am hanner diwrnod)** | **Ffi ddyddiol o £268 (£134 am hanner diwrnod)** |
| Aelod Annibynnol | **Ffi ddyddiol o £210 (£105 am hanner diwrnod)** | **Ffi ddyddiol o £210 (£105 am hanner diwrnod)** |

**Lwfansau Teithio, Cynhaliaeth a Gofal**

13 Ni fu unrhyw newidiadau i lwfansau teithio, cynhaliaeth a gofal, sy'n unol â chyfraddau Llywodraeth Cymru. Atgoffir yr Aelodau y cytunwyd yng nghyfarfod yr Awdurdod ym mis Mehefin 2018 y gellir hawlio cynhaliaeth pan fydd aelodau oddi cartref am bum awr neu fwy; mae hyn yn cyd-fynd â rheolau CThEF.

- **Cynhaliaeth**

| | |
|---|---|
| £28 y dydd | Lwfans dydd ar gyfer prydau bwyd, gan gynnwys brecwast, lle nad yw wedi'i ddarparu yn y tâl dros nos. Rhaid bod i ffwrdd am bum awr neu fwy i wneud cais am gynhaliaeth. |

- **Llety**

| | |
|---|---|
| £200 y noson | Llundain |
| £95 y noson | Mannau eraill |
| £30 y noson | Aros gyda ffrindiau a/neu deulu |

- Mae'r gyfradd **fesul milltir** yn parhau i fod yn 45c y filltir.

14 Atgoffir yr Aelodau hefyd, er mwyn cefnogi aelodau presennol ac annog amrywiaeth, ac yn unol ag argymhellion Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, bod yr Awdurdod yn ad-dalu costau gofal ar gyfer dibynyddion os cyflwynir derbynebau fel a ganlyn:

a. Ar gyfer gofal cofrestredig – costau gwirioneddol
b. Ar gyfer gofal anghofrestredig - hyd at gyfradd uchaf sy'n cyfateb i'r Cyflog Byw Gwirioneddol.

15 Rhaid i'r Awdurdod hefyd gyhoeddi bob blwyddyn gyfanswm y taliadau a wneir i bob aelod. Mae Adroddiad y Panel yn datgan:

"Rhaid i awdurdod perthnasol wneud trefniadau i gyhoeddi o fewn ardal yr awdurdod y cyfanswm a dalwyd ganddo yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol i bob aelod ac aelod cyfetholedig o safbwynt cyflog (sylfaenol, uwch a dinesig), lwfansau, ffioedd ac ad-daliadau mewn Datganiad o Daliadau (yn unol ag Atodiad 4 sy'n nodi cynnwys y Gofynion o ran Cyhoeddusrwydd).

16 Mae Atodiad 1 yr adroddiad hwn yn nodi cyfanswm y taliadau a wnaed yn ystod 2024/25.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Ystyrir nad yw'n berthnasol |
| Cyllideb ar gyfer 2025/26 | Mae'r cynnydd hwn wedi'i gynnwys yn y gyllideb ar gyfer 2025/26. |
| Cyfreithiol | Mae Rhan 8 ac atodlenni 2 a 3 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn nodi'r trefniadau ar gyfer taliadau Aelodau o awdurdodau perthnasol a swyddogaethau a chyfrifoldebau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.<br>Yn unol â Rheoliadau a chanllawiau'r Panel a nodir yn Adroddiad Blynyddol drafft y Panel ar gyfer 2017/18, rhaid i'r Awdurdod lunio a chynnal Rhestr flynyddol o Gydnabyddiaeth Ariannol i Aelodau sy'n nodi manylion y taliadau penodol y mae'n bwriadu eu gwneud i Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig yn unol â'r lefelau cydnabyddiaeth ariannol a lwfansau a bennir gan y Panel yn ei Adroddiadau Blynyddol neu Atodol terfynol.<br>Rhaid i unrhyw newidiadau i'r Rhestr a wneir yn ystod blwyddyn y cynghorau gael eu cyfleu i'r Panel cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i'r newidiadau gael eu gwneud. |
| Staffio | Ystyrir nad yw'n berthnasol |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/<br>Y Gymraeg | Nid ystyrir bod unrhyw faterion y mae angen mynd i'r afael â hwy gan fod yr argymhellion yn berthnasol yn gyfartal i bob Aelod, beth bynnag fo'u nodweddion gwarchodedig o dan y Ddeddf Cydraddoldeb Sengl. |
| Risgiau | Ystyrir nad yw'n berthnasol |

**North Wales Fire and Rescue Authority - Members' Remuneration 2024-25**

| Home | Cyngor / Council | Rhif / Number | Cyfrifoldeb / Responsibility Held | Dyddiadau / Dates | Cyflog Sylfaenol / Basic Salary | Uwch Gyflog / Senior Salary | Taliadau Teithio / Travel Payments | Cynhaliaeth / Subsistence | Arall / Other | Total |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dylan Rees | Gwynedd | F81911 | Cadeirydd / Chair | 01/04/2024 - 31/03/2025 | | £ 11,964.96 | £ 1,354.79 | £ 5.25 | £ 27.50 | **£ 13,352.50** |
| Paul Cunningham | Sir y Fflint / Flintshire | F82325 | Dirprwy Gadeirydd / Deputy Chair | 01/04/2024 - 31/03/2025 | | £ 6,372.00 | £ - | £ - | £ - | **£ 6,372.00** |
| Bryan Apsley | Wrecsam / Wrexham | F81913 | Aelod o'r Awdurdod Tân / Fire Authority Member | 01/04/2024 - 31/03/2025 | £ 2,631.96 | £ - | £ - | £ - | £ - | **£ 2,631.96** |
| Marion Bateman | Sir y Fflint / Flintshire | F81907 | Aelod o'r Awdurdod Tân / Fire Authority Member | 01/04/2024 - 31/03/2025 | £ 2,631.96 | £ - | £ - | £ - | £ - | **£ 2,631.96** |
| Carol Beard | Conwy | F82322 | Aelod o'r Awdurdod Tân / Fire Authority Member | 01/04/2024 - 31/03/2025 | £ 2,631.96 | £ - | £ - | £ - | £ - | **£ 2,631.96** |
| Gareth Sandilands | Sir Ddinbych / Denbighshire | F82396 | Aelod o'r Awdurdod Tân / Fire Authority Member | 01/04/2024 - 31/03/2025 | £ 2,631.96 | £ - | £ - | £ - | £ - | **£ 2,631.96** |
| Tina Claydon | Sir y Fflint / Flintshire | F82318 | Aelod o'r Awdurdod Tân / Fire Authority Member | 01/04/2024 - 31/03/2025 | £ 2,631.96 | £ - | £ - | £ - | £ - | **£ 2,631.96** |
| Gareth R Jones | Conwy | F82499 | Aelod o'r Awdurdod Tân / Fire Authority Member | 01/04/2024 - 31/03/2025 | £ 2,631.96 | £ - | £ - | £ - | £ - | **£ 2,631.96** |
| Adele Davies-Cooke | Sir y Fflint / Flintshire | F82317 | Aelod o'r Awdurdod Tân / Fire Authority Member | 01/04/2024 - 31/03/2025 | £ 2,631.96 | £ - | £ - | £ - | £ - | **£ 2,631.96** |
| Jeff M Evans | Ynys Mon / Anglesey | F82324 | Aelod o'r Awdurdod Tân / Fire Authority Member | 01/04/2024 - 31/03/2025 | £ 2,631.96 | £ - | £ 49.50 | £ - | £ - | **£ 2,681.46** |
| Chrissy Gee | Sir y Fflint / Flintshire | F82328 | Aelod o'r Awdurdod Tân / Fire Authority Member | 01/04/2024 - 04/12/2024 | £ 1,782.94 | £ - | £ - | £ - | £ - | **£ 1,782.94** |
| Alan Hughes | Sir Ddinbych / Denbighshire | F82333 | Aelod o'r Awdurdod Tân / Fire Authority Member | 01/04/2024 - 31/03/2025 | £ 2,631.96 | £ - | £ - | £ - | £ - | **£ 2,631.96** |
| Chris Hughes | Conwy | F82323 | Aelod o'r Awdurdod Tân / Fire Authority Member | 01/04/2024 - 31/03/2025 | £ 2,631.96 | £ - | £ - | £ - | £ - | **£ 2,631.96** |
| John Brynmor Hughes | Gwynedd | F81583 | Aelod o'r Awdurdod Tân / Fire Authority Member | 01/04/2024 - 31/03/2025 | £ 2,631.96 | £ - | £ 123.30 | £ - | £ - | **£ 2,755.26** |
| Marc Jones | Wrecsam / Wrexham | F82335 | Aelod o'r Awdurdod Tân / Fire Authority Member | 01/04/2024 - 31/03/2025 | £ 2,631.96 | £ - | £ - | £ - | £ - | **£ 2,631.96** |
| Gwynfor Owen | Gwynedd | F82320 | Aelod o'r Awdurdod Tân / Fire Authority Member | 01/04/2024 - 31/03/2025 | £ 2,631.96 | £ - | £ - | £ - | £ - | **£ 2,631.96** |
| Beverley Parry-Jones | Wrecsam / Wrexham | F82136 | Aelod o'r Awdurdod Tân / Fire Authority Member | 01/04/2024 - 31/03/2025 | £ 2,631.96 | £ - | £ - | £ - | £ - | **£ 2,631.96** |
| Arwyn Herald Roberts | Gwynedd | F82334 | Aelod o'r Awdurdod Tân / Fire Authority Member | 01/04/2024 - 31/03/2025 | £ 2,631.96 | £ - | £ - | £ - | £ - | **£ 2,631.96** |
| Austin Roberts | Conwy | F82326 | Aelod o'r Awdurdod Tân / Fire Authority Member | 01/04/2024 - 31/03/2025 | £ 2,631.96 | £ - | £ - | £ - | £ - | **£ 2,631.96** |
| Gareth A Roberts | Gwynedd | F82054 | Aelod o'r Awdurdod Tân / Fire Authority Member | 01/04/2024 - 31/03/2025 | £ 2,631.96 | £ - | £ - | £ - | £ - | **£ 2,631.96** |
| Rondo Roberts | Wrecsam / Wrexham | F81914 | Aelod o'r Awdurdod Tân / Fire Authority Member | 01/04/2024 - 31/03/2025 | £ 2,631.96 | £ - | £ - | £ - | £ - | **£ 2,631.96** |
| Paul Rogers | Wrecsam / Wrexham | F82331 | Aelod o'r Awdurdod Tân / Fire Authority Member | 01/04/2024 - 31/03/2025 | £ 2,631.96 | £ - | £ - | £ - | £ - | **£ 2,631.96** |
| Sharon Doleman | Conwy | F82518 | Aelod o'r Awdurdod Tân / Fire Authority Member | 01/04/2024 - 31/03/2025 | £ 2,631.96 | £ - | £ - | £ - | £ - | **£ 2,631.96** |
| Dale Selvester | Sir y Fflint / Flintshire | F82327 | Aelod o'r Awdurdod Tân / Fire Authority Member | 01/04/2024 - 31/03/2025 | £ 2,631.96 | £ - | £ - | £ - | £ - | **£ 2,631.96** |
| Michelle Ann Walker | Sir Ddinbych / Denbighshire | F82436 | Aelod o'r Awdurdod Tân / Fire Authority Member | 01/04/2024 - 31/03/2025 | £ 2,631.96 | £ - | £ - | £ - | £ - | **£ 2,631.96** |
| John Jones | Ynys Mon / Anglesey | F82494 | Aelod o'r Awdurdod Tân / Fire Authority Member | 01/04/2024 - 31/03/2025 | £ 2,631.96 | £ - | £ - | £ - | £ - | **£ 2,631.96** |
| Rob Triggs | Gwynedd | F82321 | Aelod o'r Awdurdod Tân / Fire Authority Member | 01/04/2024 - 31/03/2025 | £ 2,631.96 | £ - | £ - | £ - | £ - | **£ 2,631.96** |
| Mark Young | Sir Ddinbych / Denbighshire | F82336 | Aelod o'r Awdurdod Tân / Fire Authority Member Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio / Chair of Audit Committee | 01/04/2024 - 31/03/2025 | £ 6,372.00 | £ - | £ - | £ - | £ - | **£ 6,372.00** |
| Antony Wren | Sir y Fflint / Flintshire | F82643 | Aelod o'r Awdurdod Tân / Fire Authority Member | 04/12/2024 - 31/03/2025 | £ 856.09 | £ - | £ - | £ - | £ - | **£ 856.09** |
| Julia Hughes | | F81976 | Aelod Annibynnol / Independent Member | 01/04/2024 - 31/03/2025 | £ - | £ - | £ 5.40 | £ - | £ 402.00 | **£ 407.40** |
| Sally Ellis | | F81977 | Aelod Annibynnol / Independent Member | 01/04/2024 - 31/03/2025 | £ - | £ - | £ - | £ - | £ 315.00 | **£ 315.00** |
| Gill Murgatroyd | | F82115 | Aelod Annibynnol / Independent Member | 01/04/2024 - 31/03/2025 | £ - | £ - | £ - | £ - | £ 210.00 | **£ 210.00** |
| Huw Pritchard | | F82117 | Aelod Annibynnol / Independent Member | 01/04/2024 - 31/03/2025 | £ - | £ - | £ - | £ - | £ 210.00 | **£ 210.00** |
| | | | | | **£ 72,178.07** | **£ 18,336.96** | **£ 1,532.99** | **£ 5.25** | **£ 1,164.50** | **£ 93,217.77** |